



Prosiect TRAC 11 - 24



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund**



Gweithio tuag at y nod o leihau nifer y bobl ifanc 11 - 24 mlwydd oed sydd yn y perygl mwyaf o fod yn NEET yng ngogledd Cymru, drwy amrywiaeth o ymyraethau fydd yn ategu, ond nid yn dyblygu, gwasanaethau prif-lif.

Cefnogi pobl ifanc 11 – 24 mlwydd oed sy'n colli cysylltiad â'u haddysg ac mewn perygl o ddod yn NEET (nid mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant).

Pobl ifanc yn elwa o gefnogaeth iechyd a llesiant, cael mynediad i gwricwlwm amgen, a dilyn cyrsiau achrededig er gwella eu cyrhaeddiad.

TRAC 11 - 24 yn brosiect a ariennir gan yr UE, gan dderbyn cymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop – Echel Blaenoriaeth: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc; Amcan Penodol 2 (Lleihau nifer y bobl ifanc 11 - 24 mlwydd oed sydd yn y perygl mwyaf o ddod yn NEET yng ngogledd Cymru).

Partneriaid

Mae tîm TRAC Gwynedd yn rhan o brosiect ehangach TRAC 11-24 Gogledd Cymru sy'n cael ei reoli gan Gyngor Sir Ddinbych.

Mae TRAC Gwynedd yn 'Brosiect Addysg Aml Asiantaeth' sy'n cynnwys budd ddeiliaid o ystod o wasanaethau o fewn Cyngor Gwynedd, Grŵp Llandrillo Menai (sy'n cefnogi dysgwyr ôl-16 yn y coleg) a Gyrfa Cymru sy'n cyflwyno'r rhaglen ACTIVATE o fewn y cynllun yn yr ysgolion Uwchradd.

Mae gan brosiect TRAC fynediad at ystod o ddarparwyr/cyflenwyr allanol a ddewiswyd i gynnig gwasanaethau fel rhan o fframwaith TRAC



(i gyflwyno darpariaeth addysg a dysgu amgen a ariennir gan TRAC - darpariaeth achrededig a heb ei achredu).

Ar y cyd, mae'r partneriaid yn darparu ymyrraeth gynnar wedi'i deilwra ar gyfer anghenion pobl ifanc a gyfeirir at y prosiect drwy broses cyfeirio ffurfiol.

Tîm medrus sy'n ymroddedig i gefnogi dysgwyr bregus

Fel rhan o'r ddarpariaeth mae tîm ymroddedig sy'n gallu ymgysylltu'n uniongyrchol gyda phobl ifanc. Mae tîm TRAC cyfan yn cynnwys ystod eang o unigolion medrus a phrofiadol sy'n angerddol dros gefnogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial, trwy ddarparu amrywiaeth o ymyrraethau a fydd yn atgyfnerthu, ond nid yn dyblygu, gwasanaethau prif ffrwd.

Mae'r tîm yn darparu cefnogaeth ar sail un-i-un neu mewn grwpiau. Mae ganddynt gyfoeth o brofiad/arbenigedd yn ogystal â banc eang o adnoddau a ddefnyddir i gefnogi ymgysylltiad disgyblion TRAC. Mae'r ddarpariaeth yn bwrpasol ac yn cymryd ystyriaeth o bob unigolyn sydd ar y cynllun. Mae'r tîm yn cydweithio gydag adrannau mewnol ac asiantaethau allanol. Os oes sefyllfa lle nad yw'r disgybl yn ymgysylltu â'i addysg, gall y tîm weithio'n agos â hwy, rhieni, gwarchodwyr yn y cartref i oresgyn y rhwystrau i ddysgu.

Gweithwyr Ymgysylltu

Mae'r Gweithwyr Ymgysylltu yn gweithio ochr yn ochr ag ysgolion drwy ddarparu pecyn cwricwlwm amgen, cefnogi disgyblion i weithio ar bresenoldeb, cyrhaeddiad ac ymddygiad ac i gael gwared ar rwystrau, boed y rhwystrau'n rhai ymddangosiadol neu'n rhai gwirioneddol. Mae'r ddarpariaeth yn:



- Arddull nad yw'n feirniadol
 - Yn rhoi'r person ifanc yn ganolog
 - Defnyddio gwahanol declynnau i gefnogi'r person ifanc i ganfod beth yw'r problemau
 - Canfod llwybr dysgu sy'n briodol i'r person ifanc ac i'r ysgol
 - Cyfeirio ymlaen at aelodau eraill o'r tîm TRAC neu asiantaethau allanol fel bo'n briodol
 - Gweithio gyda llwyth achos o bobl ifanc ar sail 1-1
- Rhedeg sesiynau grŵp bychan i gynorthwyo disgyblion i ymgysylltu ag addysg
 - Cyflwyno cyrsiau achrededig fel Agored Cymru

Gweithwyr Llesiant TRAC

Mae'r tîm Llesiant yn helpu i gefnogi datblygiad pobl ifanc trwy eu helpu i ryngweithio'n effeithiol a datblygu agweddau positif tuag atynt eu hunain ac eraill. Dyma rai enghreifftiau o faterion ymyrraeth Llesiant gan TRAC

- Magu hyder/Seibr - Fwlio/Gosod targedau
- Dicter a phryder/Perthnasau/Delwedd o'r corff
- Ymddygiad caethiwus/Gwahaniaethu/Cymhelliant

Gellir darparu'r ymyrraethau ar sail un-i-un neu trwy waith grŵp. Mae'r pecynnau cefnogaeth yn canolbwyntio ar y person ifanc ac yn cael eu teilwra i'w hanghenion.



Gwasanaeth Iechyd Meddwl TRAC

Mae cwnsela yn rhoi lle diogel a chyfrinachol i bobl ifanc siarad am eu teimladau, gan gynnwys unrhyw bryderon neu broblemau sydd ganddynt. Gall cwnsela helpu pobl ifanc i weithio trwy eu problemau a'u cefnogi i wneud newidiadau cadarnhaol os ydynt yn dewis gwneud hynny. Nid yw cwnselwyr yn rhoi cyngor, ond yn hytrach maent yn ceisio grymuso unigolion i hwyluso eu twf personol eu hunain. Mae ystod fawr o faterion y gall person ifanc geisio cwnsela i ddelio â hwy. Dyma rai enghreifftiau:


- Gorbryder/Poeni am arholiadau/problemau teulu
- Perthnasau/Profedigaeth/Rhywioldeb
- Hunan-barch/Iselder

Os bydd angen cefnogaeth ychwanegol, gall Cwnselwyr TRAC wneud cyfeiriad at staff eraill o'r Tîm Trac neu bartneriaid, am wasanaethau ychwanegol.

Mae'r cwnselwyr yn dilyn fframwaith moesegol Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain.

TRAC - Ysgogwch eich Dyfodol (Gyrfa Cymru)

1) Ymgysylltu â Chyflogwyr (Cyn 16) - Ystod o brofiadau a gweithgareddau arloesol lle mae pobl ifanc yn rhyngweithio â chyflogwyr a chyn-ddisgyblion. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau sy'n briodol i'r oedran a'r garfan, naill ai ar ffurf grŵp neu weithdy, i godi ymwybyddiaeth am fyd gwaith a disgwyliadau cyflogwyr. Gallai hyn gynnwys ymweliadau safle neu heriau gan y cyflogwr, a chysylltiadau i gyfleoedd yn y farchnad lafur lleol, a'r gofynion am sgiliau yn y rhanbarth.



2) Sesiynau Cyflogadwyedd Hyblyg - Rhaglen o weithdai rhyngweithiol sy'n cael eu cyflwyno gan ymgynghorwyr TRAC Gyrfya Cymru, yn canolbwyntio ar wella'r rhwystrau unigol a ganfuwyd a gwella cyrhaeddiad, ymddygiad a phresenoldeb trwy gefnogaeth ar ffurf anogaeth gyrfya unigol, mentora a gosod nodau. Bydd y sesiynau gweithdy yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r ymddygiadau, gwella'r sgiliau, cael gwared â'r rhwystrau a

chynyddu'r wybodaeth ynghylch materion a adnabuwyd mewn ymchwil fel rhai sy'n arwain at bresenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad gwael. Bydd hyn yn cynnwys amrywiaeth o bynciau i'w trafod mewn lleoliad gweithle, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

Cyflawni nodau gyrfya; deall y pwysigrwydd o ddilyn neu roi cyfarwyddiadau; ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol; Sgiliau cyflwyno - Gwneud argraff dda, Pwysigrwydd y Cwricwlwm Craidd, Mentergarwch, sgiliau Cyflogadwyedd.

3) Profiadau Gwaith Unigol - Yn briodol i anghenion y cyfranogwr, caiff hwn ei ddarparu trwy ddull hyblyg, o ddyddiau blasu i leoliadau hirach pan fo hynny'n briodol. Bydd Gyrfya Cymru yn trefnu ac yn gwirio'r holl leoliadau, ac yn sicrhau cefnogaeth y cyflogwr ac yn darparu cefnogaeth i'r cyflogwr/cyfranogwr fel bo'n briodol i sicrhau y ceir lleoliad llwyddiannus ac ystyrlon.

Cysylltwch â ni:

Os hoffech ragor o wybodaeth am brosiect TRAC, cysylltwch â'r tîm:

Ffôn: **01286 679470**. • E-bost: **TRAC@gwynedd.llyw.cymru**

**[https://adyach.cymru/cy/Rhieni/Gwasanaethau/
Cynhwysiad/Cynllun-TRAC/Cynllun-TRAC.aspx](https://adyach.cymru/cy/Rhieni/Gwasanaethau/Cynhwysiad/Cynllun-TRAC/Cynllun-TRAC.aspx)**

Dilynwch ni ar Twitter: **@TRAC1124**



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

